# Adolygiad Strategol: Cylch Gorchwyl ar gyfer Darpariaeth chweched dosbarth, addysg un rhyw a lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd

## AELODAETH

Cadeirydd
I'w gadarnhau
Aelod Cabinet dros Addysg
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Prif Swyddog Addysg
Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth
Arweinydd Ysgolion 21ain Ganrif
Uwch Reolwyr yr Awdurdod Lleol
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Gwella Ysgolion
- Cynhwysiant
- Gwasanaethau Eiddo

John Fabes, Arweinydd yr Adolygiad
Cadeirydd Fforwm Penaethiaid Ysgolion Cynradd
Cadeirydd Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Uwchradd
Penaethiaid Cynrychiadol (i'w cadarnhau)
Penaethiaid Colegau
Cynrychiolaeth Aelodau Craffu (i'w cadarnhau)
Cynrychiolydd Cymdeithas y Llywodraethwyr
Gyrfa Cymru
Cynrychiolydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (i'w cadarnhau)
Cynrychiolaeth Undeb Cenedlaethol yr Athrawon / Undeb Llafur (i'w cadarnhau)

Caniateir dirprwyon enwebedig, ond mae'n bwysig bod gan y dirprwyon hyn awdurdod dirprwyedig i wneud penderfyniadau.

## TREFNIADAU ADRODD

Dyma'r bwrdd strategol ar gyfer adolygu darpariaeth chweched dosbarth, addysg un rhyw a lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd yn adrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, yn cynnwys y Pwyllgor Craffu ar Addysg am Oes, ac yn cyfeirio at y Cabinet ar gyfer gwneud penderfyniadau, a'r Cygor lle bo angen.

## AMCANION CYFFREDINOL

Cyflawni strategaeth gynaliadwy ar gyfer addysg ôl-16 yng Nghaerffili, sydd wedi'i seilio ar fodelau cadarn ac sy'n darparu'r addysg gywir yn y lle cywir a gyda'r canlyniadau gorau i ddysgwyr.

Ystyried a gwneud argymhellion mewn perthynas â pharhad addysg un rhyw yn Ysgol Gyfun Lewis i Ferched ac Ysgol Lewis Pengam, ac i fynd i'r afael ag unrhyw faterion o ran lleoedd gwag yn ystâd ysgolion Caerffili mewn modd cadarnhaol.

Yr amcanion penodol yw:

- Gwella effeithiolrwydd a chanlyniadau darpariaeth i bob dysgwr
- Gwella effeithlonrwydd y ddarpariaeth
- Darparu cyfleoedd newydd a gwell i bob dysgwr
- Gwella profiad y dysgwr
- Sicrhau bod y modelau yn gynaliadwy ac yn cynnig 'gwerth am arian'

## CYD-DESTUN

Cytuno ar baramedrau'r gwaith a fydd yn cael ei gyflawni, i gwmpasu'r gwaith a gwneud cyfres o argymhellion i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet er mwyn cynnal ymgynghoriad arnynt.

Gall y cynigion i'w hystyried gynnwys:

- Cadw'r status quo
- Sicrhau bod pob dysgwr ôl-16 yn mynd i golegau
- Canolfan chweched dosbarth a all gael ei rheoli gan yr Awdurdod Lleol neu gan un o'r colegau
- Canolfannau chweched dosbarth rhanbarthol mewn ysgolion uwchradd presennol
- Gall opsiynau eraill ddod i'r amlwg o'r adolygiad neu yn ystod y broses ymgynghori
- Parhau ag addysg un rhyw yng Nghaerffili, neu roi diwedd arno
- Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd

Er bod tair rhan i'r adolygiad hwn, maen nhw'n cydgysylltu'n llwyr. O ganlyniad, bydd angen i'r adolygiad nodi opsiynau ar gyfer datblygu'r dair agwedd a darparu cyfres gytbwys o argymhellion.

## AMSERLEN

I'w chadarnhau gan y Bwrdd ar ôl sefydlu cwmpas a threfn yr adolygiad.

## CANLYNIADAU

Bydd y Bwrdd Adolygu Strategol yn:

Datblygu strategaeth gynaliadwy ar ran yr Awdurdod Lleol ar gyfer addysg ôl-16 a fydd wedi'i chymeradwyo gan bob rhanddeiliad ac a fydd yn llywio gwaith cynllunio yn y dyfodol. Yn benodol, bydd yn:

- Sefydlu ac yn gyrru dull strategol i ddarpariaeth addysg ôl-16 yn y fwrdeistref
- Cynnig model cyflawni cynaliadwy o ddarpariaeth ôl-16 sydd o ansawdd ac yn ddichonadwy yn ariannol
- Nodi ystod resymegol o lwybrau dysgu ôl-16 i fodloni anghenion pob dysgwr, i baratoi'r disgyblion ar gyfer yr 21ain ganrif ac i arwain at fwy o gyfleoedd ar gyfer recriwtio disgyblion
- Awgrymu ffyrdd o wella llwybrau cynnydd a sicrhau bod ystod briodol o ddewis ar gyfer arlwy cwrs lefel 3
- Cynnig ffyrdd o ddatblygu dyheadau'r dysgwyr, gwella cyrhaeddiad, sicrhau cynnydd a chynyddu sgiliau cyflogadwyedd dysgwyr, gan gyfeirio'n benodol at grwpiau sy'n agored i niwed
- Gwneud cynigion mewn perthynas â gwella cyfraddau dargadw
- Gwerthuso effaith cynlluniau addysg ôl-16

Ystyried a gwneud argymhellion mewn perthynas â pharhad addysg un rhyw yn Ysgol Lewis i Ferched ac Ysgol Lewis Pengam, ac i fynd i'r afael ag unrhyw faterion o ran lleoedd gwag yn ystâd ysgolion Caerffili mewn modd cadarnhaol. Yn benodol, bydd yn:

- Nodi cyfleoedd ar gyfer ail-ffurfio gwasanaeth mewn modd manteisiol, gan gynnwys asesu'r goblygiadau i addysg un rhyw a rheoli'r ystod o leoedd gwag mewn ysgolion uwchradd

Bydd y Bwrdd hefyd yn:

- Asesu goblygiadau unrhyw gynigion, ac yn cynghori'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet ynghylch y goblygiadau posib hynny.
- Cytuno ar ddull 'system gyfan'.
- Sicrhau y caiff carreg filltir pob prosiect ei chyrraedd mewn modd amserol.
- Cynnal llinellau cyfathrebu agored i randdeiliaid, yn enwedig Penaethiaid, wrth i'r gwaith ddatblygu.

## YSTYRIAETHAU

- Mae gan Gaerffili 12 ysgol uwchradd; mae 8 ohonynt ar gyfer disgyblion 11-18 oed, a 4 ohonynt ar gyfer disgyblion 11-16 oed.
- Mae deg o ysgolion uwchradd Caerffili yn ysgolion cydaddysgol, ac mae dwy yn rhai un rhyw (Ysgol Lewis Pengam ac Ysgol Gyfun Lewis i Ferched); mae darpariaeth chweched dosbarth yn gydaddysgol yn yr ysgolion un rhyw.
- Mae ysgolion wedi bod yn cydweithio ar ddarpariaeth chweched dosbarth ers nifer o flynyddoedd er mwyn darparu arlwy ehangach yn y cwricwlwm
- Mae ysgolion a'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen i'r model cyflawni presennol ar gyfer darpariaeth ôl-16 newid i un sy'n fwy effeithlon, sy'n darparu canlyniadau o ansawdd uwch a sy'n gynaliadwy
- Bydd hefyd angen i'r adolygiad gynnwys asesiad o fanteision ysgolion cydaddysgol, ochr yn ochr ag Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer darpariaeth o'r fath; bydd hefyd angen asesiadau effaith sy'n cyfeirio at Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Bydd angen i'r adolygiad ystyried effaith lleoedd gwag ym Mwrdeistref Sirol Caerffili hefyd
- Mae agweddau eraill i'w hystyried yn cynnwys:
    - Profiadau'r dysgwr
    - Safbwyntiau pob rhanddeiliad perthnasol
    - Ansawdd y ddarpariaeth, canlyniadau perfformiad gan gynnwys mesurau gwerth a ychwanegwyd
    - Amrywiaethau mewn darpariaeth ar draws y Fwrdeistref mewn lleoliadau 11-18 oed ac 11-16 oed
    - Addasrwydd a llymder y gofynion mynediad
    - Cyfraddau cyflawniad
    - Lleoliadau'r dysgwyr
    - Cyfraddau dargadw/disgyblion yn gadael
    - Maint y dosbarthiadau chweched – hyfywdra, optimeiddiaeth
    - Gwerth am Arian
    - Effaith ar ddarpariaeth yn y dyfodol o ganlyniad i doriadau cyllid posib Llywodraeth Cymru